**ATODIAD 4**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE
Gogledd Cymru **diogelach** | A **safer** North Wales

Cwnstabl yr Heddlu 2289 Simon Keeting
Swyddog Partneriaeth Sir Ddinbych
Gorsaf Heddlu'r Rhyl, Ffordd Wellington
Y Rhyl, Sir Ddinbych
LL18 1BA

Symudol 07896173223
Simon.keeting@northwales.police.uk

16 Mehefin 2025

Cwnstabl yr Heddlu 2289 Simon Keeting o Heddlu Gogledd Cymru ydw i, ac rwy'n rhan o'r Tîm Plismona Cymunedol yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl ar hyn o bryd. Mae fy rôl i'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth, sy'n cynnwys cyfarfodydd lleihau galw a datrys problemau rheolaidd gyda thimau tai ac asiantaethau partner eraill sy'n gweithio yn ein hardal.

Gan fod cyfreithiau ac arferion gwaith wedi newid, yn yr un modd â'r galw ar y darparwyr tai sydd bellach yn cynnig sawl gwahanol fath o gefnogaeth i denantiaid yn ogystal â darparu llety, mae bellach yn ofynnol i landlordiaid da ddarparu cefnogaeth emosiynol a lles i gefnogi eu tenantiaid.

Yn yr un modd ag adrannau eraill, mae gennym landlordiaid da a drwg, ac yn anffodus, mae nifer o dai amlfeddiannaeth yn cael eu cynnig i unrhyw un sydd angen ystafell heb gynnig unrhyw fath o gefnogaeth i'w helpu i lwyddo, a all arwain at gynnydd yn y galw ar y gwasanaethau yn yr hirdymor. Yn draddodiadol, mae'r galw hwn yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, aflonyddwch domestig, difrod troseddol, dwyn/byrgleriaeth a throsedd dreisgar.

Rydym yn gweithio mewn modd rhagweithiol gyda darparwyr tai i ragweld rhai o'r problemau a chynnal cyfarfodydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol misol gyda phob un o'n partneriaid, yn ogystal â chyfarfodydd bob yn ail wythnos gyda thimau tai Sir Ddinbych. Yn ogystal â hyn, rwy'n gweithio'n agos gyda'r timau'n ddyddiol i gynnig cymorth a chefnogaeth iddynt.

Mae gennyf berthynas waith dda gyda'r Tîm Gorfodi Tai Amlasiantaeth ac rydym yn parhau i gefnogi ein gilydd lle bynnag y bo modd. Rhennir gwybodaeth yn llwyddiannus, a chynhelir nifer o ymweliadau ar y cyd i leihau'r galw neu fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi yn sgil tenantiaid sydd â ffyrdd mwy gwrthgymdeithasol o fyw, neu rai a reolir gan landlordiaid gwael. Rydym wedi darganfod bod y dull partneriaeth yn rhoi rhagor o ddylanwad i ni wrth ymdrin â problemau penodol, ac mewn nifer o achosion, mae wedi annog landlordiaid i wella eu heiddo.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cwblhau prosiect llwyddiannus yn ddiweddar o'r enw Hel, Dal, Cryfhau a oedd yn cynnwys gweithio â phartneriaid i atal troseddu ar ochr orllewinol y Rhyl. Mae'r gefnogaeth yr ydym wedi'i derbyn ac yn parhau i'w derbyn wedi ein galluogi i lwyddo â'r prosiect hwn.

Rwyf hefyd yn gweithio gyda thîm gwasanaethau stryd y Cyngor ac rydym yn cymryd rhan mewn archwiliadau gweledol i nodi problemau cymdeithasol gan gynnwys tipio anghyfreithlon, a chroniadau o sbwriel sydd yn aml yn cael eu gadael y tu allan i eiddo amlasiantaeth. Mewn nifer o achosion, mae'r tîm wedi gallu dod o hyd i'r sawl sy'n gyfrifol a chymryd camau priodol yn eu herbyn.

Fel Swyddog Partneriaeth Sir Ddinbych, rwy'n croesawu'r dull hwn o ddatrys problemau â thimau gorfodi'r Cyngor gan ei fod yn ein galluogi i dargedu meysydd problemus a'r bobl sy'n gyfrifol am roi enw drwg i'n tref.

Mae'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn y Rhyl yn ddarn o waith cadarnhaol a gobeithiaf, drwy weithio'n agos gyda'r timau, y gallwn barhau â'r gwaith da a chefnogi rhai o'r bobl sy'n fwy agored i niwed yn ein cymunedau drwy sicrhau nad gwneud elw'n gyflym yw'r unig nod gan landlordiaid a'u bod yn buddsoddi yn ein hardal.

Yn gywir

**PC 2289 Simon KEETING**
Swyddog Partneriaeth Sir Ddinbych /Partnership Officer Denbighshire
Gorsaf Heddlu Y Rhyl/Rhyl Police Station
Ffordd Wellington /Wellington Road, Rhyl
**E-Bost/ E mail: simon.keeting@northwales.police.uk**
**Tel. 07896173223**
**Tel. 01745 539669**

Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English – we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay.